



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	15 Medi 2020
TEITL	Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad Chwarter 1af
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Mae'r adolygiad cychwynnol yma yn amcangyfrif sefyllfa net lled niwtral am eleni, gyda thanwariant net o (£1,849).
- 1.2 Er hynny mae effaith COVID-19 i'w weld yn effeithio ar benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Rhent:**

Chwarter 1: gorwariant £58,080.

Mae'r gyllideb rhent yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil yr argyfwng mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd wedi'u cynnal ar lein, yn defnyddio 'Teams' neu 'Zoom'.

Ni ragwelir y bydd llawer o ddefnydd o ystafelloedd y GwE yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ogystal â hynny, nid oes dyddiad dychwelyd i'r swyddfa wedi'i bennu hyd yn hyn. Felly, mae'n anodd rhagweld os bydd modd denu unrhyw Incwm o dan y pennawd hwn. Golygai hyn orwariant tebygol ar y pennawd yn 2020/21, oherwydd diffyg incwm.

2.2 **Cludiant:**

Chwarter 1: tanwariant (£59,929).

Yn sgil yr argyfwng, bu ysgolion y rhanbarth wedi'u cau am llawer o'r flwyddyn. Gyda'r ysgolion yn agor o Fedi ymlaen, rhagwelir y bydd costau teithio'r swyddogion yn dychwelyd i'w lefel arferol am weddill y flwyddyn. Er hynny, rhagwelir tanwariant cychwynnol oddeutu 5/12 o'r gyllideb am y cyfnod Ebrill – Awst 2020.

2.3 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

Chwarter 1: niwtral.

Mae angen nodi y bu toriad cyffredinol o 3% (£957,939) i'r GGYCR, a thoriad (£1,263,019) ar gynlluniau penodol yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng Covid-19 (gyda toriad GwE yn £328,361 a thoriad yr awdurdodau / ysgolion yn £1,892,597). Er hynny, gan fod rhai cynlluniau wedi'u gohirio, gyda chynllunio ariannol cadarn, disgwylir sefyllfa llêd-niwtral yn 2020/21.

Dadansoddiad o'r grant gyflawn isod:

Datganoledig*	£27,468,198
Heb ei ddatganoli	£ 7,634,359
Cyfanswm	£35,102,557
Grant	£32,616,277
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Cyfanswm	£35,102,557

* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

3. CRONFA TANWARIANT

- 3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2020/21 oedd £480,204.
- 3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £482,053 ar ddiwedd 2020/21, wedi ystyried y tanwariant ymylol a ragwelir uchod.
- 3.3 Oherwydd yr her ariannol yn sgil y toriad i'r grantiau, fe all arwain at fwy o ofyn ar y gyllideb graidd / cronfa tanwariant yn 2020/21.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad Chwarter 1af.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.